Gweiddi

**Tasg 1**

# Bywyd môr arfordir Cymru

Rydych chi'n ddeifiwr byd-enwog sy'n crwydro'r byd i astudio pysgod a chreaduriaid y môr. Un diwrnod, wrth ddeifio ym Mae Ceredigion, rydych chi'n dod o hyd i fath unigryw o greadur nad oes neb wedi dod ar ei draws erioed o'r blaen. CYFFROUS IAWN!

Rhaid i chi gofnodi eich darganfyddiad.

- Bydd angen i chi dynnu llun o'r creadur rydych chi wedi'i weld.
- Bydd angen i chi ddisgrifio'r creadur hefyd, gan sôn am:
    - y math o greadur oedd e – oedd ganddo ddannedd/esgyll/llygaid/traed
    - ei faint
    - ei liw
    - beth mae'n ei fwyta
    - ble mae'n byw.

Cofiwch, bydd angen i chi feddwl am enw i'r creadur hefyd!

AM SBORT!

| **Geirfa** | | |
|---|---|---|
| **GAIR** | **DISGRIFIAD** | **SAESNEG** |
| deifiwr | rhywun sy'n nofio o dan y dŵr gyda thanciau ocsigen ar ei gefn | diver |
| Bae Ceredigion | y môr ar hyd arfordir gorllewin Cymru o Ben Llŷn i Sir Benfro | Cardigan Bay |
| unigryw | yr unig o'i fath | unique |
| darganfyddiad | rhywbeth rydych chi'n dod o hyd iddo | discovery |